WYTHNOS TWRISTIAETH PRYDAIN 15-21 MAWRTH 2010

Pumed diwydiant Prydain – yn werth £114 biliwn, 8.2% o CMC Prydain

Yn cefnogi 2.7 miliwn o swyddi a dros 200,000 o BBaChau – mwy o swyddi nag adeiladu neu drafnidiaeth 2009, moment ddiffiniol: gwendid y bunt yn gwneud Prydain yn fwy fforddiadwy nag erioed

Bydd 4.9 miliwn o Brydeinwyr yn ystyried aros adref am wyliau yn hytrach na theithio dramor

Mae ymwelwyr tramor yn cyfrannu tua £3 biliwn y flwyddyn i'r Trysorlys

10 Mawrth 2010

NODYN I'R DYDDIADUR WYTHNOS TWRISTIAETH PRYDAIN

CELTIC MANOR I GYNNAL LANSIAD WYTHNOS TWRISTIAETH PRYDAIN 2010

PRYD: 15 Mawrth 2010
BLE: Celtic Manor, Coed Coldra, Dyffryn Wysg, Casnewydd NP18 1HQ
AMSER: 12:00-14:00

Bydd cyn chwaraewr rhyngwladol y Llewod a Chymru, Ieuan Evans, a Gweinidog y Cynulliad dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC, yn helpu lansio pedwaredd Wythnos Twristiaeth Prydain dydd Llun (15) yng nghartref Cwpan Ryder eleni yn y Celtic Manor, Casnewydd, Cymru.

Bydd yn gyfle prin i gynrychiolwyr o fusnesau twristiaeth o bob cwr o'r wlad ymweld â'r tŷ clwb 2010 arbennig a'i holl gyfleusterau, gyda golygfeydd gwych dros y cwrs Cwpan Ryder.

Yn ogystal â phrofi'r tri chwrs golff pencampwriaeth yn y Celtic Manor, bydd gwesteion hefyd yn mwynhau arddangosiad o'r bwydydd a diodydd Cymreig gorau diolch i rai o enillwyr Gwobrau Gwir Flas Cymru. Bydd yna Dafarn Brydeinig er mwyn i westeion allu blasu rhywfaint o'n cwrw Prydeinig gwych, wedi ei drefnu gan ein cyfeillion yng Nghymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain.

Dywedodd Bernard Donoghue, Cyd Gadeirydd pwyllgor gweithredol Wythnos Twristiaeth Prydain: "Rydym yn falch iawn i fod yn lansio pedwaredd Wythnos Twristiaeth Prydain y diwydiant yn y Celtic Manor eleni gan mai

dyma fydd lleoliad y Cwpan Ryder cyntaf i'w gynnal yng Nghymru ymhen 200 niwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, y Celtic Manor fydd cyrchfan golff a thwristiaeth enwocaf y byd.

"Eleni bydd Cymru yn dangos y gallwch ailfynnu lle cyrchfan ym meddyliau teithwyr byd eang trwy fanteisio ar gyfleoedd twristiaeth byd eang digwyddiad chwaraeon. A dim ond y cyntaf mewn cyfres o gyfleoedd o'r fath i'r Deyrnas Unedig yw hon. Y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn Llundain yn 2012, Gemau'r Gymanwlad yng Nglasgow yn 2014 a Chwpan Rygbi'r Byd yn Lloegr yn 2015.

"Mae'r digwyddiadau chwaraeon byd eang hyn oll yn arddangos gwledydd Prydain, gan brofi fod twristiaeth yn fanteisiol i bawb, ym mhobman, a phob dydd."

Ewch i www.britishtourismweek.com am ragor o wybodaeth am yr wythnos o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu ledled y wlad.

- diwedd -

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mark Di-Toro, Swyddog y Wasg ar 020 7578 1098 neu 07919 392 137.

Nodiadau i Olygyddion:

Ymgyrch Wythnos Twristiaeth Prydain: 'Mae Twristiaeth Prydain yn Fanteisiol i Bawb, ym Mhobman, Pob dydd'.

Pawb: Rydym oll yn elwa o dwristiaeth ym Mhrydain p'un ai fel trethdalwyr, dinasyddion neu dwristiaid ein hunain.

Mae twristiaeth yn creu swyddi ar gyfer pob lefel o fedrusrwydd.

Mae pob £50,000 o wariant gan ymwelwyr tramor yn creu swydd yn y Deyrnas Unedig.

Fel gwlad rydym yn croesawu 32 miliwn o bobl o dramor a'r llynedd fe wariont £16 biliwn yma.

Mae £4 o bob £5 sy'n cael ei wario gan dwristiaid yn y Deyrnas Unedig yn dod o boced twristiaid domestig; rydym ni'n ddefnyddwyr hefyd.

Mae twristiaeth yn cyflogi dros 10% o'r gweithlu cyfan mewn 134 o etholaethau.

Ac mae lle braf i ymweld yn lle braf i fyw. Mae pob Prydeiniwr yn elwa o gynnyrch twristiaeth; ein treftadaeth, ein bwyd a diod, ein siopau a gwestai, ein hatyniadau a chefn gwlad, ein tafarndai a chlybiau, ein harfordir a'n chwaraeon. Rydym yn cael byw mewn gwlad y mae'r byd eisiau ymweld â hi.

Pobman: Twristiaeth yw un o'r ychydig ddiwydiannau sy'n cyflogi pobl, yn creu cyfoeth ac yn cynnal economïau lleol ym mhob etholaeth yn y Deyrnas Unedig.

Mae twristiaeth yn cynnal cymunedau dinesig a gwledig.

Gall twristiaeth adfywio dinasoedd cyfan – meddyliwch am Brifddinas Diwylliant Lerpwl, er enghraifft – a meithrin balchder dinesig.

Pob dydd: Nid yw'n ddiwydiant tymhorol; mae'n ddiwydiant 24 awr, saith niwrnod o'r wythnos, 365 niwrnod o'r flwyddyn.

Nid dim ond egwyliau hamdden yw twristiaeth; mae'n cynnwys digwyddiadau corfforaethol, lletygarwch, cyfarfodydd busnes, arddangosfeydd, digwyddiadau chwaraeon ac ati.

Ac rydym yn derbyn ymwelydd o dramor bron bob eiliad o bob dydd.

- Nod Wythnos Twristiaeth Prydain (15-21 Mawrth 2010) yw arddangos gwerth allweddol twristiaeth i economi'r Deyrnas Unedig. www.britishtourismweek.com
- Daw Wythnos Twristiaeth Prydain i ben gyda fforwm diwydiant teithio a sioe defnyddwyr Best of Britain yn Olympia Llundain o'r 17-20 Mawrth. www.britainandirelandevent.co.uk
- Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru yw Noddwr Wythnos Twristiaeth Prydain.
- Trefnir Wythnos Twristiaeth Prydain gan VisitBritain gyda chefnogaeth y Tourism Society, a chynrychiolaeth gan y sefydliadau canlynol ar y Cyngor Gweithredol: The Tourism Alliance; Cynghrair Twristiaeth Cymru; Scottish Tourism Forum; VisitEngland; VisitScotland; Croeso Cymru ; Visit London; Rhanbarthau Lloegr; British Hospitality Association; ABTA the Travel Association; UKinbound; Cymdeithas Llywodraeth Leol; Association of Leading Visitor Attractions; Travelodge; Hoseasons; Holiday Cottages Group; British Beer & Pub Association; Coach Tourism Council; Group Travel Organisers Association; Virgin Trains; a Best of Britain & Ireland Events.